CARDIAU COPA






## CYMRU

Enw'r mynydd **YR WYDDFA**

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 1,085 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 3,560 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | -8 | ºC |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | 21 | ºC |
| Glawiad mewn blwyddyn | 4,500 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 78 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 500,000 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 36 | |

Rhifau ar gyfartaledd yw rhain




MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA





## TANSANIA

Enw'r mynydd **KILIMANJARO**

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 5,895 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 19,340 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | -21 | ºC |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | 20 | ºC |
| Glawiad mewn blwyddyn | 110 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 12 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 55,500 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 4 | |

Rhifau ar gyfartaledd yw rhain




MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA




YR ALBAN



Enw'r mynydd **BEN NEVIS**

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 1,345 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 4,413 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | -15 | °C |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | 18 | °C |
| Glawiad mewn blwyddyn | 4,350 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 85 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 115,000 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 12 | |


Rhifau ar gyfartaledd yw rhain




MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA




ANTARTICA



Enw'r mynydd **VINSON MASSIF**

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 4,892 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 16,050 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | -21 | °C |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | -47 | °C |
| Glawiad mewn blwyddyn | 15 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 170 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 25 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 0 | |

Rhifau ar gyfartaledd yw rhain




MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA






PERU

Enw'r mynydd **MACHU PICCHU**

*Rhifau ar gyfartaledd yw rhain*

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 3,399 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 11,152 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | 10 | °C |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | 24 | °C |
| Glawiad mewn blwyddyn | 1,950 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 8 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 1,1250,00 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 1 | |




MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA





PAKISTAN

Enw'r mynydd **K2**

*Rhifau ar gyfartaledd yw rhain*

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 8,611 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 28,251 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | -40 | °C |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | 6 | °C |
| Glawiad mewn blwyddyn | 255 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 110 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 6 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 0 | |




MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

# CARDIAU COPA






## ALASKA

Enw'r mynydd **DENALI**

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 6,190 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 20,310 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | -60 | °C |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | 19 | °C |
| Glawiad mewn blwyddyn | 345 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 54 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 615,200 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 2 | |

Rhifau ar gyfartaledd yw rhain




MYNYDDOEDD

ⓗ Karen MacIntyre Huws

# CARDIAU COPA





## AWSTRALIA

Enw'r mynydd **ULURU**

| | | |
|---|---|---|
| Uchder uwch lefel y môr (metrau) | 348 | m |
| Uchder uwch lefel y môr (troedfeddi) | 1,142 | tr |
| Tymheredd isaf (gradd Selsiws) | 5 | °C |
| Tymheredd uchaf (gradd Selsiws) | 37 | °C |
| Glawiad mewn blwyddyn | 308 | mm |
| Cyflymder gwynt cryfaf | 12 | mya |
| Nifer ymwelwyr y flwyddyn: | 0 | |
| Sawl gwaith mae Eifion wedi bod i'r copa: | 9 | |

Rhifau ar gyfartaledd yw rhain




MYNYDDOEDD

ⓗ Karen MacIntyre Huws

GRŴP

# Antur Rhifedd

Yn syml, eich tasg yw edrych ar y ffeithiau am fynyddoedd ar y Cardiau Copa ac ateb cwestiynau ar y daflen waith. Cewch ddewis o 1 i 3 her.




Byddwch yn dysgu am y **gwahaniaeth mewn tymheredd**, a byddwch yn **ysgrifennu rhifau, ar ffurf geiriau.**


I'R BRIG Â CHI!

MYNYDDOEDD

Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA

# TYMHEREDD



Edrychwch ar y Cardiau Copa i'ch helpu ateb y cwestiynau isod.
Llenwch y bylchau efo'r geiriau

**oerach** neu **poethach**

fel hyn:

Mae hi'n **oerach** ar gopa'r Wyddfa nag ydi hi ar gopa Ayrs Rock

✶ Cymharwch y **tymheredd isaf** bob tro wrth edrych ar y Cardiau Copa

Mae hi'n ________ ar gopa Uluru nag ydi hi ar gopa'r Wyddfa

Mae hi'n ________ ar gopa K2 nag ydi hi ar gopa'r Vinson Massif

Mae hi'n ________ ar gopa Kilimanjaro nag ydi hi ar gopa Ben Nevis

Mae hi'n ________ ar gopa Machu Picchu nag ydi hi ar gopa K2

Mae hi'n ________ ar gopa K2 nag ydi hi ar gopa Denali

Mae hi'n ________ ar gopa'r Wyddfa nag ydi hi ar gopa Machu Picchu

Mae hi'n ________ ar gopa Ben Nevis nag ydi hi ar gopa Uluru


Mae hi'n ________ ar gopa'r Vinson Massif nag ydi hi ar gopa K2


Ⓗ Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA

# TYMHEREDD

Mae'r tymheredd ar gopa Uluru yn gallu newid o fod yn **5°C** yn y gaeaf i **37°C** yn yr haf. Mae hynny'n wahaniaeth o **42°C**.



## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ddau dymheredd isod:

37°C
5°C
gwahaniaeth = 41°C

18°C
0°C
gwahaniaeth =

35°C
10°C
gwahaniaeth =

27°C
2°C
gwahaniaeth =

6°C
–1°C
gwahaniaeth =

10°C
–5°C
gwahaniaeth =

cofiwch edrych os yw'r tymheredd yn is na 0°C


15°C
-15°C
gwahaniaeth =

23°C
–5°C
gwahaniaeth =

14°C
-12°C
gwahaniaeth =

CARDIAU COPA

# TYMHEREDD



Mae’r tymheredd ar gopa’r Kilimanjaro gallu newid o fod yn **–21°C** yn y gaeaf i **20°C** yn yr haf. Mae hynny’n wahaniaeth o **41°C**.


Beth yw’r gwahaniaeth rhwng ddau dymheredd isod:

| | | |
|---|---|---|
| **20°C** / **-21°C** — gwahaniaeth = **41°C** | **5°C** / **–5°C** — gwahaniaeth = | **18°C** / **-10°C** — gwahaniaeth = |
| **15°C** / **-12°C** — gwahaniaeth = | **29°C** / **-13°C** — gwahaniaeth = | **6°C** / **3°C** — gwahaniaeth = |
| **38°C** / **–3°C** — gwahaniaeth = | **4°C** / **-27°C** — gwahaniaeth = | **18°C** / **-18°C** — gwahaniaeth = |
| **22°C** / **–9°C** — gwahaniaeth = | **13°C** / **0°C** — gwahaniaeth = | **-10°C** / **-15°C** — gwahaniaeth = |


Ⓗ Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA

# GWYNT!



Fe welwch o'r Cardiau Copa bod y gwynt cryfaf yn wahanol o un mynydd i'r llall.

**Ysgrifenwch mewn geiriau beth yw cyflymder y gwynt ar gopa'r mynyddoedd isod, fel hyn:**

YR WYDDFA

Saith deg wyth milltir yr awr

---

**KILIMANARO**

---

**K2**

---

**VINSON MASSIF**


---

**BEN NEVIS**

---

CARDIAU COPA

# UCHDER



Edrychwch ar uchder y mynyddoedd mewn metrau.

**Ysgrifennwch mewn geiriau beth yw uchder y mynyddoedd isod, fel hyn:**

**ULURU**

*Tri chant, pedwar deg wyth metr*

-----------------------------------------------------------------

**BEN NEVIS**

-----------------------------------------------------------------

**KILIMANJARO**

-----------------------------------------------------------------

**VINSON MASSIF**

-----------------------------------------------------------------

**YR WYDDFA**

-----------------------------------------------------------------

**K2**

-----------------------------------------------------------------

**DENALI**

-----------------------------------------------------------------

**MACHU PICCHU**


-----------------------------------------------------------------



Karen MacIntyre Huws

CARDIAU COPA

# UCHDER



Edrychwch ar uchder y mynyddoedd mewn troedfeddi.

**Ysgrifennwch mewn geiriau beth yw uchder y mynyddoedd isod, fel hyn:**

**ULURU**

*Mil cant a phedwar deg dau troedfedd*

---

**BEN NEVIS**

---

**KILIMANJARO**

---

**VINSON MASSIF**

---

**YR WYDDFA**

---

**K2**

---

**DENALI**


---

**MACHU PICCHU**

---



Karen MacIntyre Huws




CARDIAU COPA

# TYMHEREDD

Hwyrach y bydd y thermomedr hwn o help i chi wrth feddwl am rifau sydd yn uwch ac yn is na'r rhewbwynt, sef 0°C.

Cyfrwch sawl cam sydd o un tymheredd i'r llall i wybod beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau dymheredd.


Ⓗ Karen MacIntyre Huws

GRŴP

# Antur Creadigol

**Yn syml, eich her ydi dysgu a pherfformio cân mewn arddull 'rap'!**

**OND** yn gyntaf bydd rhaid i chi ddod o hyd i eiriau coll.

Tynnwch eiriau o'r potyn, ar hap. Rhowch y geiriau sy'n odli efo'i gilydd. Penderfynwch pa eiriau sy'n ffitio'r gân.

Bydd gwybod sut mae **odli** yn eich helpu.

Wrth ganu'r gân cofiwch am **guriad** a **bît** a **rhythm.**

Wedyn ewch ati fel grŵp i ddysgu'r gân ar eich cof, cyn ei rapio.

Mi fydd gofyn i chi berfformio o flaen gweddill y dosbarth.



**Os nad oes offerynnau cerdd ar gael mi fydd yn rhaid i chi fod yn greadigol a creu sŵn efo'ch cegau, dwylo a thraed!**

MWYNHEWCH!

Ysgol Eifion Wyn Porthmadog

Torrwch y geiriau isod efo siswrn a rhowch nhw mewn potyn.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ysgol | nos | dew | llanc | caws | blew | cyfrifiadur |
| cath | Tremadog | pêl | cranc | Roblox | dijyridŵ | esgid |
| het | cangarŵ | Anti Bet | rhew | jam | dlos | trôns |

MYNYDDOEDD
Karen MacIntyre Huws

# Odli

Pan mae'r sŵn ar ddiwedd dau air yn debyg, rydan ni'n dweud eu bod nhw'n **odli**.

Dyma lond llaw o eiriau sy'n odli


str**yd** ⟶ b**yd**
st**amp** ⟶ l**amp**
tr**wyn** ⟶ ll**wyn**
g**wair** ⟶ ff**air**

a dyma eiriau sydd **ddim yn odli**:

ll**aw** ⟶ ll**anc**
cr**ys** ⟶ cr**oen**
N**ain** ⟶ s**aim**
tr**oed** ⟶ gw**aed**

Mae odli yn ei gwneud yn haws cofio penillion a dyna pam bod y rhan fwyaf o ganeuon pop a roc yn defnyddio geiriau sy'n odli.

**Dyma ddau hen bennill sy'n odli:**



Mi welais Jac y **Do**
yn eistedd ar ben **to**,
het wen am ei **ben**
a dwy goes **bren**
"Ho-ho-ho-ho-ho-ho!"

Hen fwnci bach o **Lŷn**
a aeth i dynnu'i **lun**;
edrychodd yn **syn**
a chwarddodd fel **hyn**:
"Hi-hi-hi-hi-hi-hi!"

DA DI ODLI!

O'r pentwr geiriau, dewch o hyd i'r geiriau iawn i orffen y **penillion** sy'n **odli**.

# Pa fynydd ydw i?

Mynydd coch a phoeth ydw i,
Mewn gwlad sydd heb na glaw na lli,
Gwlad yr haul a'r
Lle clywir sŵn y .

Fi yw mynydd Gwlad y Gân,
A chartre'r ddraig a'r defaid mân,
Gwlad y beirdd a'r delyn
Lle mae hi'n bwrw ddydd a .

Fi yw'r mynydd mawr a gwyn
Sydd heb na choed na gwair na llyn,
Fy llethrau sydd fel waliau
A throsof mae 'na eira'n .

**Her Aur (dewisiol). Enwch y mynyddoedd:**

Pennill 1:
Pennill 2:
Pennill 3:

MYNYDDOEDD
Karen MacIntyre Huws

# Sut i berfformio’n dda!

**Cofiwch feddwl am yr isod wrth baratoi ac wrth berfformio:**

Cofio’r geiriau (nid darllen oddi ar bapur)

Lleisiau clir

Lleisiau uchel (ond ddim gweiddi!)

Eich llygaid ar y gynulleidfa

Eich bod yn llawn egni

Cofiwch wenu!



AMDANI!

GRŴP

# Antur Iaith



Bydd pawb yn gweithio yn Google Classroom ar eich *Chromebooks.*

*Byddwch yn darllen erthygl ar y we, gweld clipiau fideo yna'n ateb cwestiynau.*

Y côd i ymuno â dosbarth Mrs Huws ydi:

**rwa22z5**

Eich her yw **'mynegi barn'** sef dweud sut yr ydach yn teimlo am rhywbeth a pham. Mae'n rhaid i chi feddwl a thrafod efo eich grŵp. Bydd yn rhaid i chi ffurfio barn a dweud mwy am eich rhesymau. Dewisiwch unai yr **Her Arbennig** *(3 brawddeg)* neu beth am herio eich hunain a dewis yr **Her Rhagorol** *(5 brawddeg)*?

**Pob lwc yn ceisio bod yn dditectifs geiriau!**



POB LWC!

MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

Cylchgrawn

# Mount Snowdon neu'r Wyddfa? Uluru neu Ayers Rock?

29 Ebrill




**Tra bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gohirio'r penderfyniad i ollwng yr enw Saesneg "Snowdon" a dim ond defnyddio "Yr Wyddfa", mae gwledydd eraill hefyd wedi cael trafodaethau tebyg dros y blynyddoedd.**

Ac ar draws y byd mae nifer o leoliadau gydag enw Saesneg ac enw yn yr iaith frodorol - a rhai yn gyfuniad o'r ddau...

## Uluru/Ayers Rock






Roedd twristiaid a theithwyr yn heidio yn eu miloedd i 'Ayers Rock' - ond bellach mae'n cael ei adnabod yn ffurfiol wrth ei enw Cynfrodorol llawer hŷn.

Uluru ydi'r enw gwreiddiol am y graig sanctaidd yn Awstralia ond yn 1873 fe wnaeth y syrfëwr William Gosse ei galw'n Ayers Rock ar ôl y gwleidydd Syr Henry Ayers.

Cafodd ei ail-enwi'n Ayers Rock/Uluru yn 1993, yna'n Uluru/Ayers Rock yn 2002, ond o fewn y parc cenedlaethol lle mae'r graig wedi ei lleoli maen nhw'n defnyddio'r gair Uluru yn unig.

## Everest/Chomolungma/Sagarmāthā



GETTY IMAGES

Mynydd uchaf ac enwoca'r byd... a chanddo dri enw.

I'r Tibetiaid, Chomolungma ydi enw'r mynydd - sy'n golygu 'mam sanctaidd', tra bod pobl Nepal yn ei galw'n Sagarmāthā - sef 'pen yn yr awyr mawr glas'.

Er bod yr enwau brodorol yn fwy adnabyddus heddiw, Everest ydy'r enw mwyaf cyffredin o hyd ar draws y byd. Fe gafodd y mynydd ei henwi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ôl Sir George Everest, Syrfëwr Cyffredinol India. Doedd **Sir George Everest, a gafodd ei eni ym Mhowys**, ddim o blaid yr enw gan nad oedd posib ei ysgrifennu yn yr iaith Hindi.

## Ben Nevis/Beinn Nibheis



Mynydd uchaf yr Alban, a'r uchaf ar ynysoedd Prydain, gydag enw Celtaidd wedi ei Seisnigeiddio.

Beinn Nibheis ydi'r enw yng Ngaeleg yr Alban. Ystyr beinn ydy 'mynydd' ac yn ôl rhai mae'r gair nibheis yn golygu cymylau, ac yn rhannu'r un tarddiad â'r gair Cymraeg 'nef'.

Scafell Pike ydy'r unig enw am fynydd uchaf Lloegr, ond o'r hen Norseg daw'r enw. Mae Skallfield yn gyfuniad o skall - sef copa moel, a fiall - sef mynydd. Mae pike yn golygu'r 'rhan uchaf'.

## Corrán Tuathail/Carrauntoohil



COLIN PARK/CREATIVE COMMONS

Draw yn Iwerddon mae enwau Gwyddeleg am eu mynyddoedd wedi eu Seisnigeiddio yn aml.

Yr enw swyddogol ar fapiau OS am fynydd ucha'r wlad ydi Carrauntoohil.

Corrán Tuathail ydi'r enw Gwyddeleg. Enw dyn ydy Tuathaill, ac mae Corrán wedi ei gyfieithu i gryman neu dant.

Mae llynnoedd yn dilyn patrwm tebyg. Lough Neagh ydi'r enw Saesneg ar lyn mwyaf ynys Iwerddon er enghraifft. Y fersiwn Gwyddeleg ydi Loch nEachach.

## Yosemite





Mae enw'r parc cenedlaethol enwog yn yr Unol Daleithiau yn tarddu o'r gair am 'laddwr'. Dyma'r enw oedd yn cael ei roi am lwyth y Miwok, oedd yn byw yno, gan rai o'u gelynion o lwythau eraill.
Enw y Miwok am yr ardal oedd Ahwahnee - sef 'ceg fawr'.

## Aotearoa/New Zealand



DANIEL PECKHAM/CREATIVE COMMONS

Llynedd fe newidiodd cwmni Vodafone y geiriad ar eu ffonau o Vodafone NZ i VF Aotearoa, yr enw brodorol ar y wlad.

Mae asiantaeth cyfathrebu DDB Group New Zealand hefyd wedi newid eu henw i DDB Group Aotearoa.

Aotearoa yw'r gair Māori am y wlad, ac mae'n golygu 'gwlad y cwmwl hir gwyn'.

Daw'r enw Seland Newydd o Nova Zeelandia, yr enw roddodd yr Ewropeaid cyntaf i lanio ar yr ynysoedd - ar ôl rhanbarth Zeeland yn yr Iseldiroedd.

**Hefyd o ddiddordeb:**

- **Y Cymro cyntaf ar gopa Everest 25 mlynedd 'mlaen**
- **Edrych nôl ar Yr Wyddfa 2018**
- **Cofio trychineb trên bach yr Wyddfa**

(Taflen wrth gefn)

Ysgol Eifion Wyn Porthmadog

# Un enw yn unig i'r Wyddfa?




Yr Wyddfa ydi mynydd uchaf Cymru, a'r enw Saesneg arno ydi 'Snowdon.' Yn ddiweddar mae trafodaeth fyrlymus wedi bod ynglyn â chael dim ond UN enw ar y mynydd, sef yr enw Cymraeg yn unig.

Mae hyn wedi hollti barn pobl yn arw. Mae rhai yn teimlo mai dim ond enw Cymraeg dylai fod ar gopa uchaf Cymru, ond mae eraill yn meddwl mai syniad gwirion a ffôl ydi anghofio'r enw 'Snowdon.'

**Mae angen eich barn chi CHI ar y mater!**

Cofiwch barchu barn pawb - y pethau gwahanol rhwng pobl sy'n gwneud y byd yn lle difyr!

BE 'DI DY FARN DI?

MYNYDDOEDD

Karen MacIntyre Huws

## ANTUR IAITH

(Taflen wrth gefn)

# Her Arbennig

**o leiaf 3 brawddeg**

Mae Parc Cenedlaethol Eryri, eisiau clywed barn pobl Porthmadog am beth i alw'r Wyddfa! Ydi hi'n well cael yr enw 'Yr Wyddfa' yn unig neu enw Cymraeg a Saesneg (dwyieithog) fel sydd ar hyn o bryd 'Yr Wyddfa' a 'Snowdon?' Ysgrifennwch o leiaf 3 brawddeg gyda eich barn, bydd yn rhaid i chi benderfynu sut ydach chi'n teimlo am hyn. A oes rhaid cael enw Saesneg ar Yr Wyddfa?

**Pethau i'w hystyried a allai eich helpu:**

O blaid un enw Cymraeg:

e.e. *"mae'r mynydd yng Nghymru, felly enw Cymraeg yn unig dylai fod"*

Yn erbyn un enw Cymraeg yn unig:

e.e. *"ond beth os nad ydi pobl yn gallu ynganu'r gair Cymraeg?"*

Dechreuwch gyda'r geiriau 'Yn fy marn i...'

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------



ⓗ Karen MacIntyre Huws

ANTUR IAITH

# Her Rhagorol

(Taflen wrth gefn)

o leiaf 5 brawddeg

Mae Parc Cenedlaethol Eryri, eisiau clywed barn pobl Porthmadog am beth i alw'r Wyddfa! Ydi hi'n well cael yr enw 'Yr Wyddfa' yn unig neu enw Cymraeg a Saesneg (dwyieithog) fel sydd ar hyn o bryd 'Yr Wyddfa' a 'Snowdon?' Ysgrifennwch o leiaf 3 brawddeg gyda eich barn, bydd yn rhaid i chi benderfynu sut ydach chi'n teimlo am hyn. A oes rhaid cael enw Saesneg ar Yr Wyddfa?

**Pethau i'w hystyried a allai eich helpu:**

O blaid un enw Cymraeg:

e.e. *"mae'r mynydd yng Nghymru, felly enw Cymraeg yn unig dylai fod"*

Yn erbyn un enw Cymraeg yn unig:

e.e. *"ond beth os nad ydi pobl yn gallu ynganu'r gair Cymraeg?"*

Dylech gynnwys geiriau fel '**credaf**', '**teimlaf**', '**heb os nac oni bai**' ac '**yn fy marn i'**

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------


MYNYDDOEDD

Ⓗ Karen MacIntyre Huws

## GRŴP

# Antur Meddwl

## Sut mae denu Macsen o'r tŷ i gael awyr iach?



Mae bachgen o'r enw Macsen yn rhy hoff o aros yn y tŷ o hyd. Ei unig ddiddordeb yn y byd yw 'ROBLOX', 'Adopt Me' a 'Brookhaven'. Mae ffrind Macsen, Grug yn ceisio ei berswadio i fynd efo hi am dro i ben Moel y Gest.

**Sut fath o bethau y buasai Grug yn medru eu dweud wrth Macsen i'w gael allan o'r tŷ ac i'r copa?**

- Meddyliwch am y teimladau braf a'r profiadau hapus y byddwch chi'n eu profi wrth fod allan yn yr awyr agored.
- Meddyliwch am y ffordd rydych chi'n teimlo wrth fynd am dro.
- Pa effaith mae cerdded mynydd yn ei gael ar y corff? Pa olygfeydd sydd i'w gweld o ben Moel y Gest. Pa ddillad ac offer fydd angen i fynd am dro efo Grug?


TYRD MACSEN!



Ⓗ Karen MacIntyre Huws

# Antur Meddwl

Torrwch gymylau efo siswrn. Ysgrifennwch eich syniadau yn y cymylau, cyn eu gludo ar y papur mawr hir fel hyn:




Offer:
Siswrn, pensil, pensiliau lliw a glud.

**Gwaith grŵp yw hwn.**
O leiaf un cwmwl bob un.

AWÊ!

Tyrd am dro
Macsen.
Dyma i ti pam…


MYNYDDOEDD
ⓗ Karen MacIntyre Huws





MYNYDDOEDD
ⓗ Karen MacIntyre Huws



MYNYDDOEDD
© Karen MacIntyre Huws







MYNYDDOEDD
(h) Karen MacIntyre Huws